# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Medi 2019

Amser: 13.00 - 16.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5624

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Suzy Davies AC<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Ann-Marie Harkin<br>Gareth Lucey |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Adam Price AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2. Nodwyd y papurau.

### 2.1 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (20 Medi 2019)

### 2.2 Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Yr hyn a ddysgwyd: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (24 Medi 2019)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Comisiwn y Cynulliad

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid y Cynulliad, a Suzy Davies AC, y Comisiynydd sydd â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethu, am Gyfrifon Comisiwn y Cynulliad.

3.2 Cytunodd y tystion i anfon rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- Y targedau ymestyn ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol;
- Cynlluniau / gwaith sy'n cael ei wneud i leihau plastig untro;
- Agweddau amgylcheddol asesiadau contract; a
- Chymharu absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant ac achosion eraill o salwch ar gyfer eleni a'r llynedd.

## 4 Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor

4. Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i edrych arno eto yn y cyfarfod nesaf.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law.

6. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Arferion a gweithdrefnau gwaith y Pwyllgor: Hyfforddiant y Pwyllgor

7. Cafodd aelodau'r Pwyllgor sesiwn hyfforddi ar rôl Swyddogion Cyfrifo.